# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Eglwyswrw**

**Canolfan Gymunedol Eglwyswrw**
**Eglwyswrw**
**SA41 3SN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 29 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Eglwyswrw yn gweithredu o neuadd y pentref yn Eglwyswrw, ac mae'n cynnig gwasanaeth gofal sesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer uchafswm o 24 o blant. Cofrestrwyd y gwasanaeth ym 1985 ac mae'n gweithredu ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener rhwng 9am ac 11:30am. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cyllid i addysgu plant tair blwydd oed, a chynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf gan Estyn ym mis Mehefin 2016. Y personau cofrestredig yw Angela Harries, Elin Phillips a Gaynor Maxfield. Angela Harries yw'r person â gofal hefyd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Canfuom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Eglwyswrw yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn derbyn gofal gan staff profiadol a pharhaus sy'n gwybod beth yw anghenion y plant. Mae'r amgylchedd yn eang gyda detholiad amrywiol o adnoddau. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau yn gywir ac yn drefnus.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, gosodwyd wyneb newydd â llawr rwber amddiffynnol yn yr ardal chwarae o flaen yr adeilad. Ariannwyd hyn trwy grant a digwyddiadau codi arian. Prynwyd ffigyrau o gymeriadau plant cyfarwydd ac fe'u gosodwyd ar y ffens. Derbyniodd y gwasanaeth wobr gan y sir yn 2017, a oedd yn cydnabod eu cyfraniad o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, ac am roi'r cyfleoedd gorau posibl i deuluoedd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell y dylai staff ymgyfarwyddo â'r 'ddyletswydd atal' ac edrych ar gyfleoedd hyfforddiant ynghylch yr arweiniad.

# 1. Llesiant

### Crynodeb

Gwrandewir ar y plant a gallant wneud penderfyniadau. Maent yn hapus, wedi ymgartrefu, ac yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae hunangyfeiriedig ac o'u dewis nhw. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n annog eu datblygiad.

### Ein canfyddiadau

## 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn maent am ei wneud. Gwrandewir arnynt ac maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn hyderus.

Gwelsom blant yn cyrraedd ac aethant yn hyderus i ardaloedd amrywiol i chwarae. Roeddent yn chwarae'n rhydd y tu mewn, ac yn symud o un gweithgaredd i'r llall fel y mynnent. Pan ofynnodd aelod o staff y canlynol i'r plant, "A ydych chi eisiau dawnsio?", ymatebodd y plant gydag "Ie!" uchel. Nid oedd pob plentyn yn dymuno ymuno â'r gweithgaredd ac felly safodd rhai naill ochr i wylio'r lleill yn dawnsio, gan ymuno ar ôl peth amser. Yn ystod amser byrbryd, dewisodd plant pa ffrwyth yr oeddent yn dymuno ei fwyta gyda'u craceri, a gwnaethant helpu eu hunain yn y caffi chwarae.

Caiff llais y plant ei werthfawrogi yn y gwasanaeth hwn.

## 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn ymdopi â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni. Mae ganddynt berthynas glòs â staff, sy'n eu hadnabod yn dda.

Gwelsom blant yn rhedeg i'r gwasanaeth yn hapus. Aeth plant eraill at staff am gofleidiadau wrth gyrraedd, am eu bod yn ofidus. Cyn pen dim, aethant i chwarae gyda'u ffrindiau ar ôl derbyn sicrwydd. Arhosodd rhai plant yn agos at staff yr oeddent yn hoff ohonynt yn ystod mwyafrif y sesiwn, gan gymryd mwy o amser cyn bod yn barod i fynd i chwarae. Gwelsom blant yn ymateb drwy wenu ac edrych yn falch wrth iddynt dderbyn canmoliaeth am wneud gwaith da neu helpu i dacluso. Gwelsom grŵp o blant yn rhedeg at staff am gofleidiadau ar ôl iddynt orffen dawnsio.

Mae gan blant berthynas glòs â staff ac maent yn teimlo'n ddiogel.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cymryd eu tro ac yn dechrau cydweithio yn ystod gweithgareddau grŵp, gyda chymorth gan y staff.

Gwelsom blant yn chwarae gyda'i gilydd â'r offerynnau cerdd. Roedd angen cymorth y staff ar rai ohonynt, ac fe'u hatgoffwyd i rannu'r eitemau. Roedd angen atgoffa'r plant i fod yn neis wrth ei gilydd pan oedd gwrthdaro yn y gornel ddarllen. Ffurfiodd y plant linell fel trên wrth iddynt aros i gymryd eu tro i olchi eu dwylo. Helpodd y rhan fwyaf o'r plant pan oedd yn amser tacluso'r teganau, a gwnaethant wenu pan gydnabu'r staff eu hymdrechion. Yn ystod amser cylch, roedd angen atgoffa rhai plant yn dawel i wrando, gyda chymorth gan staff a eisteddai ochr yn ochr â hwy.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda wrth gael cefnogaeth ar adegau.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae gan y plant ddiddordeb yn eu chwarae ac maent yn cymryd rhan lawn. Maent yn cynnal diddordeb am gyfnod priodol ac yn symud yn rhwydd ac yn ddiogel rhwng gweithgareddau.

Gwnaeth plant chwarae yn y tŷ chwarae, a gafodd ei drawsnewid yn 'dŷ cragen', gan redeg i mewn ac allan gan sgrechian mewn cyffro. Gwelsom blant yn actio bod yn aelod o staff yn hyderus, gan ofyn am y tywydd ac atgoffa'r plant i wrando ar eraill; "Pa ddiwrnod yw hi heddiw?" Sgrechiodd a chwarddodd y plant pan chwaraewyd cerddoriaeth a phan oedd yn amser dawnsio. Roeddent yn amlwg yn gyfarwydd iawn â'r caneuon a'r symudiadau wrth iddynt wrando ar y cyfarwyddiadau.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, wedi'u hysgogi, ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Gwelsom blant yn golchi ac yn sychu eu dwylo'n annibynnol. Yn ystod amser byrbryd, arllwysodd helpwr y dydd laeth i mewn i'r cwpanau cyn eu gosod ar y bwrdd ar gyfer pawb. Roedd gan bob plentyn ddeg ceiniog, y'i defnyddiodd i 'brynu' ei fyrbryd o'r caffi. Yna, roeddent yn gallu dewis darnau eraill o ffrwythau i'w hychwanegu at eu platiau, a oedd yn cynnwys cracer a banana yr oeddent wedi'u 'prynu'.  Casglodd helpwr y dydd y platiau pan oedd pawb wedi gorffen eu byrbryd. Gwelsom blant yn paru'r arian yr oedd ganddynt yn eu dwylo â'r rhifau ar y wal. Defnyddiodd y plant y ffrâm ddringo'n hyderus y tu allan, a gwnaethant chwarae pêl gyda staff, gan ei thaflu a'i dal. Dywedodd rhai rhieni wrthym fod eu plant wedi gwneud cynnydd o ran eu datblygiad ers mynychu'r gwasanaeth.

Mae plant yn dysgu'n dda, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae staff yn adnabod y plant sydd o dan eu gofal yn dda, ac yn rhoi gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio mewn modd cadarnhaol, gan gynnig digonedd o ganmoliaeth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan staff ffeil gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw, ac mae gan staff ddealltwriaeth dda o ran cadw plant yn ddiogel.

Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn byrbryd ac ar ôl iddynt ddefnyddio'r toiled. Gwnaethom drafod y gweithdrefnau amddiffyn plant â'r staff, ac roedd eu hymatebion y dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Roedd y person â gofal yn hyderus ynglŷn â’i rôl a'r camau y byddai'n eu cymryd pe bai ganddi unrhyw bryderon.  Roedd cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cofnodi a'u llofnodi’n gywir gan staff a rhieni. Nid oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn y gwasanaeth. Rhoddwyd detholiad o fyrbrydau iach a diodydd i'r plant, megis ffrwythau, craceri, llaeth a dŵr.

Mae staff yn hyderus wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio ar bob adeg. Maent yn annog plant i gymryd tro a rhannu pethau â'i gilydd. Mae’r staff yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol.

Roedd staff yn canmol y plant yn rheolaidd wrth iddynt chwarae – er enghraifft, "Da iawn, ti – ti wedi gwneud yn wych" ac "O, rwyt ti'n fachgen mor dda am fy helpu i – diolch." Gwelsom ddigwyddiadau lle gwnaeth staff ddelio ag achosion posibl o gamymddwyn a gwrthdaro drwy ymyrryd a thynnu sylw’r plant, gan argymell gweithgaredd arall neu ofyn i’r plant eu helpu i wneud rhywbeth. Aeth yr aelodau o staff i lawr at lefel y plant wrth esbonio pwysigrwydd rhannu a chymryd tro. Clywsom staff yn atgoffa plant i ddweud "diolch" pan roddwyd cwpanau iddynt yn ystod amser byrbryd.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

### 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn gwybod ac yn deall anghenion y plant ac yn cynllunio cyfleoedd dysgu a chwarae yn seiliedig ar arsylwadau o anghenion y plant. Mae'r plant yn cyfrannu tuag at gynllunio.

Roedd y staff yn adnabod y plant dan eu gofal yn dda a gwnaethant ddweud wrthym beth oedd eu hoffterau a'r hyn oedd orau ganddynt. Gwnaethant adnabod sgiliau'r plant drwy arsylwi arnynt a'u hannog i'w datblygu ymhellach. Roedd staff wedi cwblhau proffiliau'r cyfnod sylfaen ar gyfer pob plentyn. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod yn cyfarfod gyda'r nos i gynllunio gyda'i gilydd. Roedd pob aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd staff yn gallu nodi'r rhesymau posibl pam fod rhai plant yn anhapus ac yn mynnu mwy o sicrwydd nag eraill. Roedd hyn oherwydd bod staff yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn ofalgar ac yn gefnogol.

Mae staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn mewn modd gweithredol, ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn pentref bach, gwledig. Mae'r amgylchedd yn caniatáu i'r plant chwarae'n ddiogel gydag amrediad da o adnoddau. Mae'r amgylchedd wedi'i osod y tu mewn i ddiwallu holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Mae ardal awyr agored benodedig ar gyfer y plant o flaen yr adeilad.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu canfod a'u dileu cymaint â phosibl.

Gwelsom fod y drws i'r adeilad yn cael ei gadw dan glo pan oedd plant yn bresennol. Roedd yn rhaid i unrhyw ymwelwyr i'r gwasanaeth gael mynediad gan staff, ac roedd yn rhaid llofnodi'r llyfr i ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Gallem weld bod y llyfr i ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio’n rheolaidd. Roedd asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n a'u diwygio'n rheolaidd ac yn ôl yr angen ar gyfer yr ardaloedd y tu mewn a thu allan. Roedd y gwasanaeth wedi derbyn sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd yr holl ddyfeisiau trydanol wedi cael eu profi. Roedd ymarferion tân wedi'u cwblhau bob tymor i sicrhau bod unrhyw blant newydd yn gyfarwydd â'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel mewn modd effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r brif ystafell ble mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn groesawgar ac yn fawr ac mae cryn dipyn o waith y plant ac arddangosfeydd lliwgar ar y waliau. Mae cynllun yr ystafell yn hybu annibyniaeth ac yn cael ei gynnal i safon dda.

Roedd amrediad eang o gyfleoedd chwarae yn y neuadd, yn ogystal â llefydd i fwyta ac ardaloedd ar gyfer cyfnodau tawel a oedd yn addas ar gyfer y plant. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu’r byrddau a'r cadeiriau i ddarparu ardal gymdeithasol ar gyfer amser byrbryd ac roedd mannau â chlustogau lle'r oedd plant yn gallu treulio amser tawel. Mae'n rhaid i staff dacluso adnoddau a dodrefn ar ddiwedd rhai sesiynau am fod y gymuned yn defnyddio'r neuadd gyda'r nos. Roedd ardal chwarae ddiogel wedi'i lleoli o flaen yr adeilad, a gosodwyd wyneb newydd â llawr rwber amddiffynnol ar ran ohoni. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod yn gallu defnyddio iard gefn yr ysgol weithiau hefyd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer y plant y tu mewn a thu allan.

**3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?**

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a theganau sy'n lân ac o ansawdd da. Maent yn briodol o ran oedran ac yn hawdd mynd atynt.

Roedd gan y plant fynediad at ystod o adnoddau a theganau o ansawdd da a oedd yn addas i'w diben. Roedd enghreifftiau o'r adnoddau ar gael yn cynnwys adnoddau synhwyraidd a naturiol megis hambyrddau tywod a dŵr, toes chwarae, bws darllen gyda chlustogau a chanddo ddetholiad o lyfrau Cymraeg, ardal fathemateg, cornel chwarae rôl, detholiad o jig-sos a phypedi, teganau adeiladu, *stickle bricks*, *Numicon*, dillad gwisgo i fyny, gleiniau ar gyfer gwneud gemwaith, teganau amlddiwylliannol, ceir a threnau. Roedd yr arweinwyr wedi darparu dodrefn maint plant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chyrraedd teganau a chyfarpar. Y tu allan, roedd llithren, blociau adeiladu meddal, si-so, cegin fwd a gorsaf ddŵr gyda phibau ac arllwyswyr amrywiol. Roedd arweinwyr wedi darparu blychau plannu mawr, lle'r oedd plant yn plannu llysiau, blodau a pherlysiau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau'n gyson bod adnoddau ac offer o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn diwallu'r rhan fwyaf o'r rheoliadau gofynnol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith, y mae staff yn gyfarwydd â hwy. Mae systemau ar waith ar gyfer adolygu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn darparu darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd y gymhareb oedolyn:plant yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r plant a chanfuom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth gywir. Roedd pob cofnod o ddamwain wedi cael ei lofnodi gan staff a rhieni. Roedd gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac roeddent yn gweithredu'r ‘Cynnig Gweithredol’ yn llawn.

Mae arweinyddiaeth yn y gwasanaeth hwn yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol ac yn ystyried safbwyntiau'r plant, y staff, y rhieni a'r pwyllgor.

Roedd adolygiad ansawdd gofal wedi cael ei gwblhau ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac roedd yn nodi'r gweithgareddau, y gwibdeithiau, yr adnoddau newydd a brynwyd a'r adborth gan rieni a phlant. Er enghraifft, argymhellodd un rhiant y dylai'r gwasanaeth hysbysu rhieni'n well ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd yn y gwasanaeth. Mae'r arweinwyr wedi creu tudalen Facebook er mwyn i rieni allu cysylltu ag arweinwyr, a chaiff cylchlythyrau rheolaidd eu hanfon at rieni.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn cynllunio ar gyfer gwella yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y nifer cywir o staff yn y gwasanaeth a bod digon o weithgareddau ar gael ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu. Mae gan arweinwyr systemau ar waith i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff a chanfuom fod yr holl ddogfennaeth berthnasol ar waith, gan gynnwys tystysgrifau hyfforddi a geirdaon. Roedd yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniadau blynyddol, ac roedd hyn yn amlygu unrhyw anghenion hyfforddiant neu feysydd i'w gwella. Roedd gan arweinwyr gynlluniau wrth gefn i

gyflenwi absenoldebau staff. Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau a'u bod yn falch o fod yn rhan o'r gwasanaeth. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan arweinwyr.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn dda.

### 4.3 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Ar y cyfan, mae gan arweinwyr berthnasau da gyda rhieni/gofalwyr, yr ysgol leol a'r gymuned.

Gwnaethom dderbyn holiaduron gan rieni, a ddywedodd wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth. Dywedodd rhai wrthym nad oeddent yn cael eu hysbysu'n dda ynghylch cynnydd eu plant, a'u bod yn teimlo bod angen gwneud gwelliannau o ran hysbysu rhieni ynghylch y ffordd yr oedd eu plant yn datblygu. Roedd gan yr arweinwyr gysylltiadau â'r ysgol, a oedd wedi'i lleoli yn union y drws nesaf i'r neuadd. Roedd yr athrawes yn ymweld â'r gwasanaeth cyn i blant ddechrau yn yr ysgol. Yn ogystal, roedd gan blant gyfleoedd i ymweld â'r ysgol a chael cinio yno.

Mae partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol leol yn effeithiol, ond mae meysydd i'w gwella mewn perthynas â rhannu gwybodaeth am gynnydd y plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai staff ymgyfarwyddo â'r 'ddyletswydd atal' ac edrych ar gyfleoedd hyfforddiant ynghylch yr arweiniad.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau oedd hyn.

Cynhaliodd arolygydd un ymweliad â'r gwasanaeth ar 11 Mai 2018, am gyfanswm o dair awr a hanner. Rhoddwyd adborth dros y ffôn ar 24 Mai 2018.

- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau yn ystod yr arolygiad;
- gwnaethom arsylwi ar arferion rhwng y staff a'r plant;
- gwnaethom edrych ar ddatganiad hunanasesu'r gwasanaeth;
- gwnaethom arolygu'r amgylchedd y tu mewn a thu allan;
- gwnaethom siarad â'r person â gofal, y plant a'r aelodau o staff;
- gwnaethom dderbyn dau holiadur a gwblhawyd gan rieni.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd sesiynol |
| Person cofrestredig | Elin Phillips<br>Gaynor Maxfield<br>Angela Harries |
| Person â gofal | Angela Harries |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 24 |
| Ystod oedran y plant | dwy a hanner i bedair blwydd oed |
| Oriau agor | Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener<br>9am–11:30am |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Ebrill 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 11 Mai 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |